Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council








Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (WLPS) 2023-2028

# **Adroddiad blynyddol 2023-2024**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

# Cynnwys

Cyflwyniad....................................................................................................... 2

Datblygiadau yn ystod 2023-2024........................................................................... 3-4

Mentrau i Gyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2023-2024.............................. 5

Cynnydd o ran Cynllun Gweithredu 2023-2024.............................................................. 6

Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg.................................. 6

Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg.................................................. 9

Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun......................... 13

Os bydd angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print mwy o faint neu fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 07805 771506 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

## Cyflwyniad

Cafodd ein Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg (WLPS) 2023-2028 ei mabwysiadu gan y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2023.

Nod y strategaeth yw sicrhau bod y Gymraeg, erbyn 2028, yn llawer mwy clywadwy a gweladwy mewn cymunedau lleol, ac yn cael ei defnyddio gan fwy o bobl yn eu bywydau beunyddiol.

Mae'n adlewyrchu themâu strategaeth 'Cymraeg 2050', Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, ac yn nodi sut byddwn ni'n gweithio at y nodau canlynol:

- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- cynyddu defnydd o'r Gymraeg; *a*
- chreu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun) yn y fwrdeistref sirol.

Yn ogystal â hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau, rydym hefyd yn bwriadu hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithlu Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (WLPS) 2023-2028. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024, ac yn amlygu ein gwaith o ran symud ymlaen gyda'r camau gweithredu yn y strategaeth sydd â dyddiadau targed yn 2023 a 2024 yn ystod y cyfnod hwn.

Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn llawer o feysydd, mae rhai camau gweithredu heb symud ymlaen cymaint ag y rhagwelwyd, a hynny am amrywiaeth o resymau.

*Yn 2021, amcangyfrifwyd bod 538,000 o breswylwyr arferol Cymru oedd yn 3 oed a throsodd (17.8%) yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg – gostyngiad ers 2011 (562,000, 19.0%) (Cyfrifiad 2021).*

*Un o'r prif ffactorau oedd yn cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol yng nghanran y bobl oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 oedd y gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc 3-15 oed oedd yn dweud bod y sgil yma ganddyn nhw.*

*Er bod y nifer yma'n gyson ar draws Cymru, oddi mewn i ddata Castell-nedd Port Talbot o'n Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Ysgolion (PLASC) gwelwn fod y targed a gynigiwyd ar gyfer disgyblion mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn 2023 wedi'i gyrraedd, sef 2%, neu 3,329 o ddisgyblion allan o gyfanswm o 20,529.*

Lle na lwyddwyd i gyrraedd rhai targedau penodol, y nod fydd cyflawni'r rheiny o fewn y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau bod y cynllun yn dychwelyd at y terfynau amser gwreiddiol.

## Datblygiadau yn ystod 2023-2024

### Urdd Gobaith Cymru

Ym mis Ebrill 2023 cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru mai Parc Margam fyddai lleoliad Eisteddfod yr Urdd yn 2025.

Eisteddfod yr Urdd 2025 fydd y digwyddiad Cymraeg mwyaf i'w gynnal yn y fwrdeistref sirol ers i'r Eisteddfod ddod i Barc Margam ddiwethaf, yn 2003. Bydd yn cynnig cyfleoedd dihafal i Gastell-nedd Port Talbot fynd ati'n falch i hyrwyddo iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn y cyfnod cyn yr ŵyl, yn ystod yr ŵyl ei hun, ac wedi hynny.

Eisteddfod Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025



### Maer Ieuenctid

Ym mis Mawrth 2023 sefydlwyd Maer Ieuenctid newydd i Gastell-nedd Port Talbot. Yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, dewisodd Maddie Pritchard, sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ganolbwyntio ar y Gymraeg fel un o'i blaenoriaethau, gan gefnogi targed Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Maddie hefyd oedd Hyrwyddwr cyntaf y Gymraeg yng Nghyngor Ieuenctid CnPT, ac yn sgîl hynny bydd gan y Cyngor Ieuenctid Hyrwyddwr y Gymraeg bob blwyddyn o hyn allan.

### Hyrwyddwyr y Gymraeg



Yn dilyn tristwch colli'r Cyng. Marcia Spooner, a fu'n Hyrwyddo'r Gymraeg i ni, yn 2023 penodwyd dau Hyrwyddwr newydd i'r Gymraeg. Bydd y Cyng. Rebecca Phillips a'r Cyng. Rosalyn Davies yn eiriolwyr dros y Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd o'r iaith yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## Datblygiadau yn ystod 2023-2024 (parhad)

### Clwb Cymraeg




Cafodd Clwb Cymraeg ar ôl ysgol ei beilota ym Mhontardawe, fel bod gan bobl ifanc rywle diogel i gymdeithasu, ochr yn ochr â chyfle i ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Bu cyfanswm o 27 o bobl ifanc yn mynychu'r clwb, oedd yng ngofal Gwasanaeth Ieuenctid CnPT a Menter Iaith CnPT, gyda gweithiwr ieuenctid dwyieithog. Yn dilyn llwyddiant y peilot, lansiwyd ail Glwb Ieuenctid Cymraeg yn Nhrebannws, ac mae nifer dda o bobl ifanc yn mynd yno.

### Cyfleusterau ysgol newydd i gryfhau addysg Gymraeg yng Nghwm Tawe



Agorwyd ystafelloedd dosbarth newydd a Chanolfan Drochi i'r Gymraeg yn swyddogol ddydd Gwener, 13 Hydref, 2023 yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe, gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles AS.

Roedd y prosiect yn fodd i'r ysgol ychwanegu 60 o ddisgyblion at ei chapasiti, ac ychwanegu 12 o leoedd amser llawn yn y lleoliad gofal plant oedd yno eisoes.

### Dysgu Cymraeg

Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o'r dudalen 'Dysgu a Defnyddio'r Gymraeg' ar wefan y Cyngor, gyda 166 neu 44.5% yn fwy o drawiadau yn 2023-2024, o gymharu â 2022-2023.

# Mentrau ar gyfer Cyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2023-2024

Parhaodd gweithgareddau ar hyd y flwyddyn i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith gweithwyr Cyngor CnPT:

## Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr Cyngor CnPT




Lansiwyd yr Arolwg gyntaf i Ymgysylltu â holl weithwyr cyngor CnPT yn ystod 2023-24 (Mawrth 2024).

Er mwyn gwneud yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob gweithiwr, a darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ddewis holiadur Cymraeg neu Saesneg. Cafwyd 796 o ymatebion, 8 ohonynt yn Gymraeg; ein nod yw cynyddu'r ffigur hwn ym mhob arolwg yn y dyfodol.

## Diwrnod Shwmae Su'mae

Ym mis Hydref 2023, cynhyrchwyd dau fideo newydd i hyrwyddo diwrnod blynyddol Shwmae Su'mae ymhlith y staff. Bu Rhys Locke, Swyddog Datblygu Athrawon a Noelwyn Daniel, Cyfarwyddwr – Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, fel ei gilydd yn rhannu eu balchder yn y Gymraeg a'u gwerthfawrogiad ohoni fel rhan o'u hunaniaeth ddiwylliannol.

## Cyfleoedd Hyfforddi

Darparodd Menter Iaith CnPT chwe wythnos o sesiynau "Hyder-ish" Cymraeg anffurfiol yn ddi-dâl. Nod y rhain oedd cynyddu hyder i siarad Cymraeg ymhlith siaradwyr rhugl a dysgwyr lefel uwch mewn cyd-destun hamddenol. Roedd y sesiynau hefyd yn cynnwys gweithgareddau wythnosol fel crefftau a chwisiau.

Hyrwyddwyd cyrsiau Cymraeg ar gyfer staff oedd yn gweithio ym maes Addysg. Roedd y cyrsiau hyn, a ddarparwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn amrywio o lefel dechreuwr i lefel uwch, ac fe'u cyflwynwyd trwy gyfuniad o ddysgu rhithwir a chyfunedig, fel eu bod yn addas ar gyfer patrymau byw unigolion. Roeddent ar gael i bob aelod o staff 18-25 oed.

# Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu yn 2023-2024

## Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg

### Maes gwaith: Cefnogi gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2022-2032

| Cam Gweithredu: 1.1 Hyrwyddo'r grŵp 'Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg' ar Facebook ymhlith yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg |
|---|
| Cynnydd 2023-2024: |
| Bu Menter Iaith CnPT (MICnPT) yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau yn yr ardal yn ystod y 12 mis, lle buon nhw'n hyrwyddo'r grŵp Facebook 'Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg' ymhlith rhieni plant oedd mewn addysg Gymraeg. Daeth MICnPT hefyd i ddiwrnodau agored mewn ysgolion lle maen nhw'n rhoi côd QR i rieni fedru ymuno â'r grŵp. Mae MICnPT hefyd wedi ychwanegu nifer o adnoddau newydd at y grŵp Facebook yn ystod y flwyddyn, i rieni eu defnyddio gartref. |
| Cam Gweithredu: 1.2 Diweddaru a hyrwyddo'r llyfryn 'Manteision Dwyieithrwydd' ymhlith teuluoedd |
| Cynnydd 2023-2024: |
| Er nad yw'r llyfryn wedi cael ei ddiweddaru eto, mae MICnPT wedi bod yn dosbarthu taflen sy'n amlinellu rhai o fanteision dwyieithrwydd, ynghyd â llyfryn canllaw ar gyfer addysg Gymraeg. |
| Cwblhawyd cyfres 'Taith yr Iaith' o 4 fideo i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, ac mae gydag adran cyfryngau CnPT ar hyn o bryd, yn barod i'w rhyddhau |
| Cam Gweithredu: 1.3 Hyrwyddo dwyieithrwydd ymhlith teuluoedd sy'n disgwyl baban |
| Cynnydd 2023-2024: |
| Cynhyrchir yr holl ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo yn Gymraeg a Saesneg a'u rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| Gall teuluoedd ddewis cyrchu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg |

## Maes gwaith: Trosglwyddiad iaith yn y cartref

Cam Gweithredu: 1.4 Nodi argaeledd (wyneb yn wyneb ac ar-lein), cost a lleoliad cyrsiau Cymraeg a'u hyrwyddo ymhlith y trigolion

Cynnydd 2023-2024:

Mae MICnPT yn cyfeirio rhieni a phobl yn y gymuned at wefan ABA Dysgu Cymraeg ac yn darparu manylion cyswllt ar eu cyfer. Maen nhw hefyd yn cyfeirio pobl ymlaen at y cwrs Clwb Cwtsh sy'n cael ei ddarparu gan y Mudiad Meithrin

Cam Gweithredu: 1.5 Datblygu a hyrwyddo sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith y trigolion

Cynnydd 2023-2024:

Rhoddodd MICnPT gyflwyniadau yn niwrnodau agored Ysgolion Cynradd Cymraeg i rieni a lleoliadau gofal plant yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliodd MICnPT hefyd raglen o ddigwyddiadau yn ystod gwyliau'r ysgol lle buon nhw'n mynd i lyfrgelloedd ac yn cynnal digwyddiadau crefft a disgos distaw. Yn ystod y digwyddiadau hyn manteisiwyd ar gyfleoedd i siarad â rhieni am fanteision yr iaith Gymraeg.

## Maes gwaith: Cefnogi pobl i ddysgu/siarad Cymraeg

Cam Gweithredu: 1.6 Darparu cyfleoedd i staff y Cyngor gael mynediad at lefelau priodol o gyrsiau dysgu/gloywi Cymraeg

Cynnydd 2023-2024:

Mae Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg y cyngor yn cyfeirio unigolion at y gwiriwr canfod Lefel o ran y Gymraeg a 'Help i gael hyd i gwrs'

Anogir gweithwyr y Cyngor i symud ymlaen trwy lefelau'r hyfforddiant lle bo modd. Y dysgu a ddewisir amlaf yw'r cyrsiau a ariannir gan Cymraeg Gwaith trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, fodd bynnag, mae dosbarthiadau wedi cael eu hariannu i'r staff os ydynt am symud ymlaen heibio'r cyrsiau sydd ar gael.

Anogir pob rheolwr i ganiatáu i'w timau fynychu cyrsiau Cymraeg, p'un a yw'r iaith yn ofynnol fel rhan o'u rôl neu beidio, ac maent yn cael amser allan o'u diwrnod gwaith nodweddiadol i fod yn bresennol

Cyrchodd cyfanswm o 19 o staff gyrsiau gwella iaith rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024

## Cam Gweithredu: 1.7 Creu a hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol

Cynnydd 2023-2024:

Yn ystod ei flwyddyn lawn gyntaf (rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023), cafwyd 374 o drawiadau ar y dudalen "Dysgu a Defnyddio Cymraeg" ar wefan y cyngor, a grewyd ar 15 Mawrth 2022. Cododd hynny i 540 o drawiadau rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 – cynnydd o 166 trawiad, neu 44.5%

Creodd MICnPT nifer o adnoddau newydd yn ystod y flwyddyn i rieni eu defnyddio gyda'u plant gartref. Crewyd hefyd becyn Cymraeg i'r clybiau ieuenctid yn ardal yr awdurdod lleol, i'w cynorthwyo i ddarparu gweithgareddau Cymraeg yn eu sesiynau.

Creodd MICnPT becyn adnoddau ar gyfer meithrinfeydd dydd i'w cynorthwyo i ddarparu a chyflwyno'r Gymraeg yn ystod eu sesiynau. Buont hefyd yn mynd i'r meithrinfeydd dydd i esbonio'r pecyn ac arddangos rhai o'r gweithgareddau.

Hyfforddiant Cyngor CnPT: Trwy Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, cynigir cyfle i'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach (gofal cymdeithasol preifat) ddysgu Cymraeg trwy ddysgu ar-lein sy'n cael ei ddarparu gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cyfle hwn yn golygu bod modd i'r Gymraeg fod ar gael yn fwy a chael ei gweld mewn cymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot trwy ddarpariaeth y Sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Yn 2024 cyflwynwyd adnodd newydd ar gyfer y sector Gofal Cymdeithasol 'Gofal a chysur yn Gymraeg', ac mae wedi cael ei hyrwyddo. Lluniwyd yr adnodd hwn yn arbennig ar gyfer gweithwyr gofal lliniarol, fel bod modd iddynt gynnig elfen o ofal a chysur yn newis iaith unigolion sydd wedi cyrraedd diwedd oes.

Mae Cyngor CnPT yn cydnabod bod gweithwyr hefyd yn rhan o'n cymunedau. O ganlyniad, mae ein Rhaglen Hyfforddi hefyd yn cynnwys gwybodaeth, adnoddau a chyfeirio ymlaen at:

- Adnoddau i Arddegwyr ac Oedolion Ifanc
- Adnoddau i Blant

## Cam Gweithredu: 1.8 Datblygu/cyfeirio ymlaen at gyrsiau priodol a chefnogaeth i staff addysgu ac eraill sy'n dysgu Cymraeg

Cynnydd 2023-2024:

Caiff rhaglen o gyfleoedd hyfforddi a dysgu, gan gynnwys pecynnau rhyngweithiol, ei diweddaru'n rheolaidd trwy ddefnyddio pecyn creu llyfrau. Mae hynny'n golygu bod unrhyw newidiadau a diweddariadau yn fyw, ac nid oes angen eu hailgyhoeddi.

Mae'r rhaglen hon ar gael ar Cyswllt CnPT i weithwyr Cyngor CnPT, gan gynnwys staff addysgu. Caiff cyfleoedd eu postio hefyd ar hyd y flwyddyn trwy'r offeryn ymgysylltu â staff Viva Engage, 'Cymuned Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg'.

Defnyddir cyllideb cydraddoldebau corfforaethol y cyngor i gefnogi hyfforddiant Cymraeg ar gais. Hysbysebir cyrsiau Cymraeg Gwaith gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg, a ariannir yn llawn, yn rhaglen y cyngor trwy'r platfform Viva Engage.

## Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

### Maes gwaith: Cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol 2022-2032

| Cam Gweithredu: 2.1 Archwilio cyfleoedd gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i gynyddu ymwybyddiaeth o lyfrau/ddeunyddiau Cymraeg ymhlith y trigolion |
|---|
| Cynnydd 2023-2024: |
| Ar hyd 2023-2024, cafodd cyfanswm o 8,971 o eitemau Cymraeg eu rhoi ar fenthyg gan wasanaeth llyfrgelloedd CnPT |
| Bu Cyngor Ieuenctid CnPT yn helpu i hyrwyddo Gwasanaeth Llyfrgelloedd CnPT mewn Ysgolion a chynhaliwyd Stondin Diwrnod y Llyfr yng Nghanolfan Siopa Aberafan, lle rhoddodd mwy na 40 o bobl ifanc eu henwau i lawr i ymuno â'r llyfrgell am y tro cyntaf. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys hyrwyddo llyfrau Cymraeg oedd yn cael eu harddangos yn ystod y digwyddiad. |

| Cam Gweithredu: 2.2 Archwilio cyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg ym mhob cyfleuster hamdden a diwylliant |
|---|
| Cynnydd 2023-2024: |
| Mae Neuadd Gwyn yn llwyfannu pantomeim Cymraeg bob blwyddyn, a bydd gwybodaeth ynghylch ffigurau presenoldeb yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2024-2025. |
| Cynhaliwyd digwyddiadau Cymraeg ar draws Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot, a bydd gwybodaeth am nifer y digwyddiadau a'r rhai oedd yn bresennol yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn Adroddiad Blynyddol Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025 |
| Mae Strategaeth newydd Diwylliant a Threftadaeth Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys cynllun gweithredu i arddangos cynnydd o ran y brif thema "Calon Gymreig", a rhagwelir y bydd cynnydd o ran y camau gweithredu hynny yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad blynyddol Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025. |

- Bydd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal ym Mharc Gwledig Margam ym mis Mai 2025, ac mae'r cyngor yn cydweithio'n agos â Thîm yr Urdd i fanteisio ar gyfleoedd ehangach i hybu ymwneud ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot â'r Eisteddfod ac i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr holl weithgareddau a gynhelir i hyrwyddo'r digwyddiad.
- Sefydlwyd Tîm Marchnata Masnachol newydd i godi proffil ein parciau gwledig, ein theatrau a lleoliadau eraill, ac i'w cynorthwyo i gynhyrchu refeniw ychwanegol. Fel rhan o hynny, mae'r tîm yn sicrhau bod yr holl weithgarwch hyrwyddo yn digwydd yn ddwyieithog, a bod cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried yn llawn yn yr holl weithgareddau a gynhelir.
- Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ac yn cynnal nosweithiau rheolaidd yn Gymraeg, gan gynnwys perfformwyr Cymraeg proffil uchel yn rheolaidd yn ei rhaglen.

## Cam Gweithredu: 2.3 Datblygu ail Glwb Ieuenctid Cymraeg mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol yn Nhai'r Gwaith

### Cynnydd 2023-2024:

Bu Gwasanaethau Ieuenctid CnPT, ar y cyd â'r sector gwirfoddol yn Nhai'r Gwaith, yn cynnal clwb ieuenctid Cymraeg yng Nghanolfan Maerdy, oedd ar agor 1 noson yr wythnos am 28 o sesiynau. Dan arweiniad Gweithwyr Ieuenctid oedd yn siarad Cymraeg, cyrhaeddodd y ddarpariaeth 33 o bobl ifanc unigol a rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol.

Daliwyd ati i gyflwyno'r Clwb Ieuenctid Cymraeg yn Nhrebannws mewn partneriaeth â MICnPT a Gwasanaeth Ieuenctid CNPT. Mae'r clwb yn agor 1 noson yr wythnos yn ystod tymhorau'r ysgol, ac yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol. Mae'r clwb hefyd yn cyflwyno sesiynau ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Cafodd clwb ieuenctid Cymraeg ar ôl ysgol ei beilota ym Mhontardawe mewn partneriaeth â MICnPT a Gwasanaeth Ieuenctid CnPT, gan gynnig darpariaeth i bobl ifanc tra'u bod yn aros i gael eu casglu o'r ysgol. Sefydlwyd hon yn ddarpariaeth ddwyieithog, fel bod siaradwyr Cymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol, ac fel bod y bobl ifanc di-Gymraeg yn cael cyfle i glywed Cymraeg yn cael ei siarad, yn y gobaith y byddai hynny'n gwella'u sgiliau Cymraeg hwythau. Cyrhaeddodd y ddarpariaeth 27 o bobl ifanc unigol.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

- Daeth 74 o bobl ifanc unigol i Glwb Ieuenctid Cymraeg Trebannws. Ar gyfartaledd, roedd 28 yn bresennol bob nos.
- Daeth 72 o bobl ifanc unigol i Glwb Ieuenctid Dwyieithog Cwmllynfell, ac ar gyfartaledd, roedd 19 yn bresennol bob nos.

| Cam Gweithredu: 2.4 Archwilio gyda phlant a phobl ifanc sut mae modd defnyddio mwy o Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol. |
|---|
| Cynnydd 2023-2024: |
| Fel yr amlinellwyd yn 2.3, cyflwynwyd dau glwb Ieuenctid Cymraeg yn y fwrdeistref sirol mewn partneriaeth â MICnPT a Gwasanaeth Ieuenctid CnPT. |
| Cyflwynodd MICnPT hefyd sesiynau Cymraeg ym mhob clwb ieuenctid yn y sir, a chafodd pob un o’r clybiau becyn i’w helpu i gyflwyno sesiynau Cymraeg eu hunain. Creodd MICnPT hefyd ddeunydd hyrwyddo i hybu’r Gymraeg a manteision ei defnyddio. |
| Sefydlwyd clybiau cinio Cymraeg mewn tair ysgol uwchradd ail iaith yn y fwrdeistref sirol. |
| Mae swyddog yn y ddwy ysgol uwchradd Gymraeg. Mae’r swyddog hwn yn darparu gweithgareddau Cymraeg yn ystod amser cinio tu allan i’r dosbarth. |
| Aeth MICnPT a Gwasanaeth Ieuenctid CnPT â grŵp o bobl ifanc i Langrannog ar gyfer cwrs preswyl dros y penwythnos. Cafodd y bobl ifanc eu trochi yn y Gymraeg yn ystod eu harhosiad. Aeth 13 o bobl ifanc ar y cwrs preswyl 3-diwrnod yng nghanolfan yr Urdd, Llangrannog, lle buon nhw’n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau oedd yn cynnwys abseilio, cwrs rhaffau uchel, sgïo, go-certi, beiciau cwad, toboganau ac ystafell ddianc. Cwblhaodd y bobl ifanc hefyd gwrs Agored Lefel 1 wedi’i achredu yn Niwylliant Cymru: Traddodiadau ac Arferion Cymru. Defnyddiwyd y Gymraeg ar hyd eu hymweliad, a chyflwynwyd y cwrs Agored a’i gwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Lluniwyd hyn gyda chymorth Cyngor Ieuenctid CnPT. Daeth MICnPT i nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn i hybu’r Gymraeg a manteision ei defnyddio. |
| Darparodd MICnPT nifer o sesiynau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn i blant a phobl ifanc tu allan i’r ysgol. Nod y gweithgareddau hyn yw darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’u Cymraeg tu allan i’r dosbarth. |
| Mae’r Gymraeg yn dal yn nodwedd o’n Cwricwlwm Clybiau Ieuenctid. Gosodwyd targed i Glybiau Ieuenctid yr Awdurdod gyflwyno o leiaf 1 gweithgaredd Iaith / Diwylliant Cymru bob mis. Mae’r rhain yn cynnwys Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Rhoddwyd pecyn o adnoddau i bob clwb ieuenctid, er mwyn iddyn nhw fedru cyflwyno bingo yn Gymraeg a gwella gwybodaeth am rifau yn Gymraeg. |
| Cafodd amrywiaeth o ddigwyddiadau eu mynychu a’u cyflwyno i hybu defnydd o’r Gymraeg. Dosbarthwyd taflenni yn esbonio pwysigrwydd dysgu a siarad Cymraeg a dosbarthwyd geiriau’r anthem genedlaethol hefyd. Defnyddiwyd y sesiynau hefyd i hyrwyddo gwasanaethau a digwyddiadau lleol oedd ar gael i siaradwyr Cymraeg. |

Gan weithio mewn Partneriaeth, cyflwynodd Gwasanaeth Ieuenctid CnPT a MICnPT sesiynau mewn 10 clwb ieuenctid lle roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i hyrwyddo. Rhoddwyd pecyn o adnoddau i bob clwb ieuenctid eu defnyddio, a syniadau ar gyfer hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg.

Cyflwynwyd 24 o sesiynau gweithgareddau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc fel arfer yn defnyddio Saesneg wrth siarad â ffrindiau'n gymdeithasol yn yr ysgol. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol. Cyflwynodd y staff weithgareddau difyr oedd yn annog ac yn cefnogi unrhyw ddisgyblion oedd yn cael trafferth defnyddio'r Gymraeg wrth sgwrsio.

Penododd Cyngor Ieuenctid CnPT ei Hyrwyddwr Cymraeg cyntaf yn ystod y flwyddyn i roi hwb i ddefnydd o'r Gymraeg. Mae'r rôl hon hefyd yn cefnogi'r Maer Ieuenctid a'r Cyngor Ieuenctid ehangach trwy ddarparu siaradwr Cymraeg ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a chyflwyniadau.

Cam Gweithredu: 2.5 Gweithio gyda cherddorion lleol i ddarparu sesiynau creadigol ar gyfer pobl ifanc – archwilio teithiau personol o ran cerddoriaeth Cymru, etc.

Cynnydd 2023-2024:

Daeth cerddor lleol, Bronwen Lewis, i amrywiaeth o glybiau ieuenctid a grwpiau ieuenctid i gyflwyno'i thaith ym myd cerddoriaeth Cymru. Cafodd y bobl ifanc gyfle i wrando ar ddetholiad o ganeuon Bronwen a chymryd rhan mewn sesiwn 'holi ac ateb'.

I gloi'r prosiect cerddoriaeth cynhaliwyd Digwyddiad Dathliad gyda Bronwen Lewis yng Nghanolfan y Celfyddydau, Pontardawe. Roedd hon yn noson lwyddiannus iawn, gyda 24 o bobl ifanc yn bresennol. Cyflwynwyd gwobrau i bobl ifanc am Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru yn eu Cymunedau, a rhoddwyd gwobrau i aelodau staff hefyd am Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru yn y gweithle a thrwy eu prosiectau. Roedd rhieni, Aelodau Cabinet yr Awdurdod Lleol a'r Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol hefyd yn bresennol yn y digwyddiad.

## Maes gwaith: Ehangu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle etc

Cam Gweithredu: 2.6 Canfod a hyrwyddo cyfleoedd amgen o ran hyfforddiant sgiliau iaith ymhlith staff y Cyngor

Cynnydd 2023-2024:

Mae ein Rhaglen Hyfforddi yn gwbl gynhwysol, ac rydym ni'n falch o hyrwyddo amrywiol gyfleoedd hyfforddi amgen, sy'n cynnwys:

- Dysgu hunangyfeiriedig ar-lein;
- Addysgu byw Rhithwir ar-lein;
- Addysgu wyneb yn wyneb yn y dosbarth;
- Pecynnau megis Duolingo a Dwed Rywbeth yn Gymraeg.
- Cyfryngau, cerddoriaeth ac adnoddau Cymraeg, yn cynnwys Spotify, BBC sounds; ac Y Pod;
- Adnoddau yn benodol ar gyfer Arddegwyr ac Oedolion Ifanc, yn cynnwys AM a HANSH;
- Cyfeirio ymlaen at adnoddau ar gyfer cefnogaeth a diweddariadau newyddion, yn cynnwys S4C; Cysill; Ap Treiglo; a llawer mwy;
- Adnoddau i Blant yn cynnwys, Gwefan Cyw, Cyw Tiwb, Campau Cosmig ac Ar y Fferm

Rydyn ni'n deall bod angen ymroddiad i ddysgu iaith, a bod rhaid i'r dysgu gydweddu ag amserlenni a bywydau prysur. Mae hyrwyddo amrywiaeth o wahanol ddulliau dysgu yn rhoi cyfle i'r staff ddewis y dull(iau) mwyaf addas iddyn nhw, yn y gwaith a'r tu allan iddo.

Cam Gweithredu: 2.7 Hyrwyddo a gwreiddio Polisi'r Cyngor ar gyfer Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Cynnydd 2023-2024:

Llithrodd y cam gweithredu hwn oherwydd capasiti cyfyngedig yn y tîm Polisi Corfforaethol. Nawr bod swydd y Swyddog Polisi Corfforaethol (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) wedi cael ei llenwi, bydd hyn yn cael ei roi ar waith ac adroddir ar gynnydd yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025.

## Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun

### Maes gwaith: Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal

Cam Gweithredu: 3.1 Datblygu a gweithredu Strategaeth newydd Diwylliant a Threftadaeth sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â'i gwneud yn fwy gweladwy

Cynnydd 2023-2024:

- Mabwysiadwyd Strategaeth Diwylliant CnPT ym mis Medi 2023. Y brif thema o ran y Gymraeg yw "Calon Gymreig", a cheir hyd iddi ym mhob rhan o'r strategaeth.
- Yn y Strategaeth Diwylliant ceir y weledigaeth y bydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn ffynnu erbyn 2030, ac yn helpu i gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015).
- Mae diwylliant Cymru yn ganolog i'r strategaeth, ac mae sefydliadau partner yn rheolaidd yn cynnig Dramâu a sioeau Cymraeg mewn cyfleusterau hamdden ar draws Castell-nedd Port Talbot.
- Mae'r **Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau**, a ariannir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, wedi gallu cynorthwyo sefydliadau lleol a phartneriaid strategol i gyflwyno prosiectau sy'n cyflawni nodau'r Strategaeth Diwylliant, y Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Strategaeth Treftadaeth. Rhaid i ymgeiswyr am y gronfa ofalu bod ganddynt eu polisi Cymraeg eu hunain yn ei le er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n unol â Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gronfa yn cynnwys cyfanswm o £2.2 miliwn. Dyma rai enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cynnal gweithgareddau i annog defnydd o'r Gymraeg yn uniongyrchol:
    - Eisteddfod yr Urdd a dderbyniodd gyllid i gyflwyno gŵyl gychwynnol well yn CnPT,
    - Cafodd CIC Calon Afan gyllid i ddatblygu adnoddau i adrodd treftadaeth a hanes Port Talbot a Chwm Afan trwy brosiect Afan Always/Afan Erioed
    - Ymddiriedolaeth St Giles sy'n cynnwys gweithdai Cymraeg fel rhan o'r gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi i'w cyfranogwyr yn Rhaeadrau Aberdulais.

Cam Gweithredu: 3.2 Hyrwyddo gwasanaeth cyfieithu a chyngor Cymraeg di-dâl Busnes Cymru, Helo Blod, ymhlith ein cymuned fusnes

Cynnydd 2023-2024:

Mae MICnPT yn dosbarthu cylchlythyr bob pythefnos sy'n cynnwys gwybodaeth am gynllun Helo Blod. Maen nhw hefyd wedi cychwyn y cynllun 'hapus i siarad' sy'n hyrwyddo gallu busnesau i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i ddysgwyr a siraradwyr Cymraeg.

**Cam Gweithredu: 3.3 Sicrhau bod y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

Cynnydd 2023-2024:

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot yn nodi bod y Gymraeg yn elfen allweddol o hybu ymdeimlad o le a chreu Cymunedau Llawn Bywyd. Mae Tudalen 13 o'r cynllun yn nodi,
*'Fel cyrchfan i ymwelwyr mae'r Gymraeg yn darparu ymdeimlad o le sy'n gwneud Cymru'n wahanol i wledydd eraill. Mae annog defnydd o'r Gymraeg a gwneud yr iaith yn rhan o sut rydyn ni'n adrodd hanes treftadaeth a diwylliant ein sir yn ffordd bwysig o ddatblygu'r ardal ymhellach fel cyrchfan i ymwelwyr.'*
Dyma rai camau gweithredu penodol, perthnasol sy'n rhan o'r cynllun:

- Sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan annatod o bob cyfathrebu a phrosiect sy'n cael eu datblygu gan y cyngor ac o fewn prosiectau partner.
- Cynghori rhanddeiliaid a busnesau yn y sector twristiaeth ynghylch sut mae integreiddio'r Gymraeg ac ymdeimlad o le yn eu gweithgareddau hwythau.

**Cam Gweithredu: 3.4 Gweithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME i archwilio ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn cymunedau**

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag Ysgol Cwm Brombil i gynyddu ymwybyddiaeth o'r diwylliannau a'r traddodiadau a geir yn yr ysgol. Yn haf 2023 a 2024 bu'r gymdeithas yn helpu i gynllunio 'Diwrnod Dathlu Diwylliant'. Yn ystod y digwyddiad hwn, dathlwyd sawl diwylliant, oedd yn cynnwys diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Cafodd gwisgoedd Cymreig eu harddangos, a rhannwyd caneuon Cymreig a gwybodaeth am y Gymraeg. Mae'r Gymdeithas yn parhau i edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn cymunedau.

**Cam Gweithredu: 3.5 Datblygu ffocws Cymreig ar gyfer ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' y Cyngor trwy ddefnyddio 'Dewch i Sgwrsio yn Gymraeg'**

Cynnydd 2023-2024:

Llithrodd y cam gweithredu hwn oherwydd capasiti cyfyngedig yn y tîm Polisi Corfforaethol. Bydd yr Ymgyrch yn cael ei datblygu i'w lansio yn Chwarter 4 2024-2025 er mwyn mwyafu'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag Eisteddfod yr Urdd a gynhelir ym Mharc Margam yn 2025 ac adroddir am gynnydd yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025.

Cam Gweithredu: 3.6 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fel rhan o system fonitro SPF ar gyfer prosiect Angor Busnes y Cyngor, h.y. casglu data allweddol, a chanfod a oes angen cefnogaeth i roi arferion ar waith fel rhan o'r system CMS newydd ar gyfer Datblygu Economaidd.

Cynnydd 2023-2024:

Gall pob ymgeisydd i'r gronfa SPF ddewis iaith ar gyfer cyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg), ac mae'r holl ddeunydd hyrwyddo a ffurflenni ceisiadau yn ddwyieithog.

Mae'r prosiect yn paratoi ar gyfer cau ar hyn o bryd, ond ar hyd ei oes mae mwy na 1,000 o fusnesau wedi cael eu cefnogi, er na chafwyd ceisiadau am ddarparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cam Gweithredu: 3.7 Archwilio dichonolrwydd creu cydlynydd hyrwyddo'r Gymraeg i weithio gyda gwasanaethau a phartneriaid

Cynnydd 2023-2024:

Crëwyd swydd Cydlynydd Hyrwyddo'r Gymraeg, a phenodwyd unigolyn i'r swydd. Bydd cynnydd ychwanegol o ran y gwaith a gwblhawyd gyda gwasanaethau a phartneriaid yn cael ei adlewyrchu yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025

## Maes gwaith: Gwreiddio'r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau

Cam Gweithredu: 3.8 Datblygu ein polisi sgiliau iaith mewnol a'i roi ar waith ar draws ein meysydd gwasanaeth

Cynnydd 2023-2024:

Llithrodd y cam gweithredu hwn o ganlyniad i gapasiti cyfyngedig yn y tîm Polisi Corfforaethol. Nawr bod swydd y Swyddog Polisi Corfforaethol (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) wedi cael ei llenwi, bydd gweithredu'n digwydd ar hyn ac adroddir am gynnydd yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025.

Cam Gweithredu: 3.9 Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i gynllun a chymhwysiad technolegau newydd

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n falch o adrodd bod cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i gynllun a chymhwysiad technolegau newydd a gyflwynir fel rhan o'n cynllun cyflawni digidol. Mae dylunydd cynnwys Cymraeg wedi cael ei gyflogi i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwasanaethau digidol. Mae ein cyfrif newydd i drigolion a'n gwefan gorfforaethol, www.npt.gov.uk, wedi cael eu llunio gyda'r Gymraeg ar y blaen, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r fenter hon yn cefnogi ein strategaeth ddigidol ehangach a'n dull gweithredu 'digidol trwy ddyluniad', fel yr amlinellwyd yn ein Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg yn ddiweddar. Mae'r strategaeth hon yn mynegi pwysigrwydd dylunio gwasanaethau digidol sy'n troi o gwmpas y defnyddiwr ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf.

Ymhellach, caiff ein hymdrechion eu llywio gan Safonau Gwasanaeth Digidol CnPT, sy'n 'Canolbwyntio ar lesiant pobl yng Nghymru yn awr ac i'r dyfodol'. Mae'r safonau hyn yn amlygu ymhellach ein hymgyrch i ganolbwyntio ar ddeilliannau sydd o fudd i'n trigolion, yn hytrach na manylebau technegol yn unig. Trwy wneud yr egwyddorion hynny'n rhan o ddylunio ein gwasanaeth digidol, rydym wedi ymrwymo i greu gwasanaethau sydd nid yn unig yn cefnogi Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol heddiw, ond hefyd yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Rydym hefyd wedi cynnwys cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ein manyleb gofynion answyddogaethol ar gyfer datrysiadau digidol newydd, gan sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi hefyd yn gallu cydymffurfio.

Cam Gweithredu: 3.10 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu'r polisi coffáu pobl a digwyddiadau yn y parth cyhoeddus

Cynnydd 2023-2024:

Caiff yr holl ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Caiff y rhain eu postio ar Blatfformau Cyfryngau Cymdeithasol Treftadaeth CnPT - Facebook ac X.

Dyfarnu'r Grant Treftadaeth Gymunedol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 – dyfarnwyd cyllid i 10 o brosiectau, ond cafodd cyfanswm o 12 ddyfarniad cyllid hyd at 31 Mawrth 2024. Un o amodau gofynnol prosiectau a'u gweithgareddau yw bod yr holl ddeunydd marchnata a hyrwyddo'n cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg.

Cynhaliwyd cyfanswm o 28 o weithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu gydag aelodau o'r cyhoedd gan y Tîm Treftadaeth. O blith y rhain, roedd siaradwyr Cymraeg yn bresennol i alluogi ymgysylltiad a chyfranogiad trwy gyfrwng y Gymraeg mewn 14 o ddigwyddiadau.

Bu'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth Treftadaeth Ddrafft ar agor o 9 Hydref 2023 tan 5 Tachwedd 2023. Cynhyrchwyd fersiynau drafft Cymraeg a Saesneg ar gyfer yr ymgynghori. Lluniwyd arolwg Cymraeg oedd yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gyfranogi ac ymateb. Cynhaliwyd dau Weithdy Ymgynghori gyda phartneriaid/rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol/gwirfoddolwyr, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Roedd siaradwr Cymraeg o Dîm Treftadaeth CnPT yn bresennol fel bod modd ymgysylltu a chyfranogi yn Gymraeg.

Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Byddwch yn Rhan o'n Hanes' tan 4 Hydref 2023, gan roi cyfle i bobl ifanc 16-25 oed greu 'collage', darlun, paentiad, print, map darluniadol (neu unrhyw fath arall priodol o gelf) i ddathlu ein treftadaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ac i fynegi beth mae hynny'n ei olygu iddyn nhw. Cynhyrchwyd ffurflenni cystadlu Cymraeg, er mwyn i'r ymgeiswyr fedru ymateb yn Gymraeg. Rhannwyd yr holl ffurflenni a phosteri gydag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg y fwrdeistref sirol, a phob Chweched Dosbarth a Choleg yn y sir.

## Cam Gweithredu: 3.11 Adolygu'r targed o gynnydd o 1% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn CnPT ar ôl dadansoddi'r holl ddata perthnasol

### Cynnydd 2023-2024:

Llithrodd y cam gweithredu hwn oherwydd capasiti cyfyngedig yn y tîm Polisi Corfforaethol. Caiff y targed ei adolygu yn Ch4 2024-2025 ac adroddir am gynnydd yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025.

## Cam Gweithredu: 3.12 Edrych ar y posibilrwydd o sefydlu categori Hyrwyddwr y Gymraeg yng Ngwobrau Tîm Mewnol Cyngor CnPT

### Cynnydd 2023-2024:

Llithrodd y cam gweithredu hwn oherwydd capasiti cyfyngedig yn y tîm Polisi Corfforaethol. Datblygir meini prawf drafft er mwyn medru cynnig y categori hwn i dîm y prosiect ar gyfer Gwobrau Tîm CnPT 2025, i gyd-fynd ag Eisteddfod yr Urdd 2025 ym Mharc Margam. Adroddir ar gynnydd yn Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2025.